# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 14EG MAWRTH 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B. A. Jones (Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau),G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Plant), R. Hartshorn (Pennaeth Polisi a Diogelwch y Cyhoedd), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), T. Stephens (Pennaeth Cynllunio Dros Dro), R. Kyte (Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Datblygu), S. Richards (Pennaeth Cynllunio, Strategaeth ac Adnoddau Dros Dro), M. Headington (Rheolwr Gwasanaethau Mannau Gwyrdd a Chludiant), O. Ashton (Rheolwr Cyflenwi Cynllun Datblygu Gwledig) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth) a P. Marsden (Addysg a Chyflawniad) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cynghorwyr: Datganodd C. Gordon, C. Cuss, Mrs B.A. Jones, Mrs E. Stenner a L. Phipps ddiddordebau personol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag eitem agenda 9 - Cyfalaf Addysg 2018/19, a chafodd manylion eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

### 3. COFNODION CABINET - 28AIN CHWEFROR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Chwefror 2018 (rhifau cofnod. 1 - 10) a'u llofnodi fel yn gofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

## 4. GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS ARFAETHEDIG YNG NGHEFN BRITHDIR

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) i gyfyngu mynediad cerbydau i Gefn Brithdir ar Gomin Gelligaer a Merthyr am gyfnod o 3 blynedd. Byddai'r cyfyngiadau'n cael eu cynnwys mewn Gorchymyn drafft a bydd y broses statudol, gan gynnwys ymgynghoriad ffurfiol, yn dechrau a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried. Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau, byddai'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Eglurwyd bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 wedi dod â phŵer newydd i Awdurdodau Lleol ddelio â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal ddaearyddol drwy osod amodau ar ddefnyddio ardal. Y nod yw sicrhau bod y mwyafrif o'r dinasyddion sy'n dilyn y gyfraith yn gallu defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae GGMCau'n disodli nifer o ddarpariaethau cyfreithiol presennol gan gynnwys Gorchmynion Dynodedig Mannau Cyhoeddus, Gorchmynion Gatio a Gorchmynion Rheoli Cŵn. Nid yw'n bosib gwneud Gorchmynion bellach o dan y gwahanol ddulliau hyn o ddeddfwriaeth ac y dylid gwneud unrhyw orchmynion newydd i reoli gweithgareddau o'r fath fel GGMCau.

Trafododd Cabinet bwrpas GGMCau a'r nifer o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymwneud â thipio anghyfreithlon. Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynglŷn â nifer y cwynion a dderbyniwyd gan drigolion yn eu wardiau yn agos at ardal Cefn Brithdir. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi bod yn gweithio'n galed gyda chydweithwyr yn Adran Glanhau ac Iechyd yr Amgylchedd, Cadwch Gymru'n Daclus a Chyfoeth Naturiol Cymru wrth fynd i'r afael â'r mater hwn wrth symud ymlaen. Nodwyd manylion y cynigion a'r ymgynghoriad yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) i gymeradwyo'r cynnig i gyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus i gyfyngu mynediad cerbydau i Gefn Brithdir am gyfnod o 3 blynedd;

(ii) cynnwys y cyfyngiadau mewn Gorchymyn drafft a'r Broses Statudol, gan gynnwys Ymgynghori Ffurfiol;

(iii) y canlyniad a adroddwyd yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried / neu os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, dylai'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn gael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

## 5. STRATEGAETH ADFYWIO DDRAFFT BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI - SYLFAEN AR GYFER LLWYDDIANT 2018-2023 A YCHWANEGWYD GAN UWCHGYNLLUN DRAFFT BASN CAERFFILI

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar y Strategaeth Adfywio Ddrafft o'r enw 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-2023' ac 'Uwchgynllun Drafft Basn Caerffili' ac am gymeradwyaeth i gynnal ymarfer Ymgynghoriad Cyhoeddus. Roedd copïau o'r dogfennau ynghlwm wrth yr adroddiad a rhoddwyd crynodeb byr o ran y ddau.

Cynghorwyd y Cabinet bod y Strategaeth Adfywio Ddrafft wedi'i datblygu fel dogfen gyffredinol sy'n canolbwyntio ar 4 Thema Strategol (Cefnogi Pobl, Cefnogi Busnes, Cefnogi Ansawdd

Bywyd, a Chysylltu Pobl a Lleoedd) sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer adfywio a'r blaenoriaethau strategol sydd i'w datrys. Mae Uwchgynllun Drafft Basn Caerffili yn nodi'r cyfres o Amcanion Strategol a fydd yn gyrru'r ddarpariaeth ar gyfer gweledigaeth tref Caerffili a chyfieithu'n uniongyrchol i gyfres o brosiectau a chamau gweithredu. Mae'n ceisio bachu'r cyfleoedd sy'n codi o Gronfa Fuddsoddi y Cytundeb Dinesig a bydd hefyd yn ymgorffori'r ardaloedd o gwmpas Caerffili. Eglurwyd y bydd yr Uwchgynllun yn cael ei ategu gan nifer o strategaethau eraill, megis Safon Ansawdd Tai Cymru a Chynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol yn y dyfodol a sut y gellid defnyddio cyllid posibl y Cytundeb Dinesig er mwyn helpu i gyflawni rhai o'r cynigion sydd yn y dogfen.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r dogfennau i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 13eg Chwefror 2018. Roedd y Pwyllgor Craffu eisiau i'r cyfnod Ymgynghori ar gyfer y ddwy ddogfen gael ei ymestyn o 4 wythnos i 6. Bydd canlyniadau'r Ymgynghoriadau wedyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2018.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r gwaith helaeth a wnaed wrth ddatblygu'r dogfennau a gofynnwyd i'r adroddiad gael ei adrodd yn ôl i gydweithwyr yn y tîm am eu cefnogaeth a'u cyfraniad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod, yn amodol ar yr uchod, yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar newid i argymhelliad 10.1. a 10.2. bod y cyfnod Ymgynghori yn cael ei ymestyn o 4 wythnos i 6: -

(i) cymeradwyo'r Strategaeth Adfywio Ddrafft 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-2023' fel sail ar gyfer ymarfer ymgynghori cyhoeddus sy'n dechrau ar 26ain Mawrth 2018 am gyfnod o 6 wythnos;

(ii) cymeradwyo Uwchgynllun Drafft Basn Caerffili fel sail ar gyfer ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus sy'n dechrau ar 26ain Mawrth 2018 am gyfnod o 6 wythnos.

## 6. Y GANOLFAN GYMUNEDOL ARFAETHEDIG YN NHŶ SIGN, RHISGA I GYMRYD LLE CANOLFAN GYMUNEDOL CHANNEL VIEW

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet mewn egwyddor i gefnogi cyflwyno Canolfan Gymunedol a adeiladir yn bwrpasol ar dir yn Heol y Celyn, Tŷ Sign, Rhisga, yn amodol ar Ymgynghoriad llawn. Cyflwynwyd y cynnig gan Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd, Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Tŷ Sign, i ddatblygu Canolfan Gymunedol newydd yn Nhŷ Sign, Rhisga.

Hysbyswyd y Cabinet bod Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Channel View yn meddiannu'r adeilad ar drwydded ar rent rhad yn Channel View, Rhisga (mae'r manylion ynghlwm wrth yr adroddiad). Mae'r tir hwn ym mherchenogaeth y Cyngor drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae mynediad i'r safle drwy Gynllun Tai Lloches Hafod-y-Bryn y Cyngor.Nid yw Canolfan Gymunedol Channel View bresennol yn addas i'r diben ac mae'n gartref i adeilad arall sydd wedi'i brydlesu i Gorfforaeth Ymddiriedolaeth Cymdeithas Sgowtiaid, sydd hefyd mewn cyflwr corfforol gwael.

Mae Sefydliad Corfforedig Elusennol sydd newydd ei greu, Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Tŷ Sign wedi cysylltu â'r Cyngor, i weithio mewn partneriaeth â nhw i archwilio dichonoldeb datblygu Canolfan Gymunedol newydd bwrpasol yn Heol y Celyn, Tŷ Sign, Rhisga ar dir a gedwir hefyd gan y Cyfrif Refeniw Tai. Mae Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Tŷ Sign yn chwilio am gyfnod prydles o 21 mlynedd o leiaf (sy'n angenrheidiol i

gwrdd â gofynion y Loteri Fawr), ac ar Canolfan Gymunedol Channel View bresennol yn cau o dan y cynnig uchod.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, y dylid cefnogi Canolfan Gymunedol a adeiladir yn bwrpasol ar dir yn Heol y Celyn, Tŷ Sign a dylid awdurdodi Swyddogion i ymgymryd â thrafodaethau pellach ac ymgymryd â'r Ymgynghoriadau angenrheidiol gydag adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w benderfynu'n derfynol.

## 7. EITHRIAD I DRETH Y CYNGOR AR GYFER POBL SY'N GADAEL GOFAL

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i ddiwygio'r Polisi Gostyngiad Dewisol Treth y Cyngor - Adran 13A (1) (c) (Atodwyd i'r adroddiad), yn effeithiol o 1af Ebrill 2018.

Mae'r adroddiad yn nodi manylion cynnig i bobl sy'n gadael gofal rhwng 18 a 25 oed sydd 'wedi'u heithrio' fel dosbarth penodedig o dalu Treth y Cyngor. Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiadau i 'Polisi Gostyngiad Dewisol Treth y Cyngor - Adran 13A (1) (c)' sy'n caniatáu i'r Cyngor leihau atebolrwydd Treth y Cyngor person, neu ddosbarth o bobl, i ddim, os yw'n gweld yn addas i wneud hynny. Mae ymgyrch ddiweddar gan y Comisiynydd Plant wedi amlygu'r anawsterau y mae llawer o bobl ifanc yn eu hwynebu wrth reoli eu harian a thalu biliau wrth adael gofal.

Cynghorwyd y Cabinet bod y Polisi Gostyngiad Dewisol Treth y Cyngor yn caniatáu i geisiadau gael eu hystyried ar sail unigol yn unig. Er mwyn gweithredu'r cynnig hwn, mae angen i'r rhai sy'n gadael gofal gael eu pennu fel dosbarth o achosion o ran pa atebolrwydd Treth y Cyngor sy'n gallu cael ei leihau. Os yw unigolyn sy'n gadael gofal yn byw mewn cartref ac nad yw'n atebol am ddibenion Treth y Cyngor, bydd y person(au) atebol am Dreth y Cyngor yn gallu gwneud cais am ostyngiad dewisol os yw presenoldeb y person sy'n gadael gofal yn arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor sy'n daladwy ar gyfer y cartref. Yn y ddau achos, mae angen i'r sawl sy'n gadael gofal fod rhwng 18 a 25 oed.

Roedd y Cabinet wrth eu boddau i gefnogi'r cynnig gyda'r stori 'newyddion da' hon.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo'r Polisi Gostyngiad Dewisol Treth y Cyngor diwygiedig y Cyngor - Adran 13A (1) (c) fel yn Atodiad A, yn effeithiol o 1af Ebrill 2018.

## 8. GWEITHREDIADAU CRONFA GYMDEITHASOL EWROP: YSBRYDOLI I WEITHIO, PONTYDD I WAITH 2 A SGILIAU GWEITHIO I OEDOLION 2

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer estyniad i Ysbrydoli i Weithio, ac mewn egwyddor i gytuno am estyniad yn y dyfodol i Bontydd i Waith 2 a Sgiliau Gweithio i Oedolion 2. Gofynnwyd am gymeradwyaeth hefyd am ddefnyddio hyd at £283 mil o falansau Cyfarwyddiaethau Addysg fel arian cyfatebol ychwanegol i gefnogi estyniad i Ysbrydoli i Weithio, Pontydd i Waith 2 a Sgiliau Gweithio i Oedolion 2 er mwyn cael CyllidEwropeaidd ychwanegol.

Hysbyswyd y Cabinet, er gwaetha'r cynnydd diweddar yn yr economi, bod diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn destun pryder o hyd yn y Fwrdeistref Sirol. Ers 2013, mae Swyddogion Caerffili wedi cymryd rhan yn y datblygiad o gynigion rhanbarthol sy'n ceisio

adeiladu ar lwyddiant gweithrediadau cymorth cyflogaeth a gyflwynwyd o dan Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2007-13, gan gynnwys Pontydd i Waith, Pre-VENT a Sgiliau Gweithio i Oedolion.

Bellach mae nifer o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r rhai a gymeradwywyd yn cynnwys Ymgyrch Cymunedau am Waith a arweinir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfateb i rai o'u buddsoddiad yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gyda thimau Cymunedau yn Gyntaf bellach yn cael eu cefnogi i ddarparu cymorth cyflogaeth yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Nodwyd manylion y grwpiau targed o fewn pob un o'r Prosiectau yn yr adroddiad. Mae cyfraniad Caerffili yn y 3 gweithrediad yn rhan o ymagwedd ranbarthol a phartneriaid eraill yn y rhanbarth ar hyn o bryd yn awyddus i ymestyn pob 3 gweithrediad hyd at Ragfyr 2022. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i brosiectau weithio gyda mwy o bobl er mwyn newid cyfleoedd bywyd mwy o drigolion Caerffili. Darparwyd enghreifftiau o astudiaethau achos, lle cafwyd prentisiaethau gyda chwmnïau fel Wilmot Dixon, o ganlyniad i bobl yn cael mynediad i'r prosiectau hyn.

Eglurwyd y byddai, drwy ymestyn y tair gweithrediad hyd at Ragfyr 2022, hyd at £5,017 mil o arian grant (£2,100 mil yn fwy na'r hyn a gymeradwywyd ar hyn o bryd) ar gael am gost arian "go iawn" i Gaerffili o £1,148 mil. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am ymrwymiad ariannol ychwanegol gan yr Awdurdod o £283 mil (£1,148 mil - £865 mil).

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) cymeradwyo’r cynnig i ymestyn Ysbrydoli i Weithio, ac mewn egwyddor cynnig i ymestyn Pontydd i Waith 2 a Sgiliau Gweithio i Oedolion 2 hyd at fis Rhagfyr 2022;

(ii) cymeradwyo defnyddio hyd at £283 mil o Falansau Cyfarwyddiaethau Addysg fel arian cyfatebol ychwanegol i gefnogi estyniad Ysbrydoli i Weithio, Pontydd i Waith 2 a Sgiliau Gweithio i Oedolion 2 er mwyn cael arian Ewropeaidd ychwanegol.

## 9. CYFALAF ADDYSG 2018/19

Datganodd y Cynghorwyr C. Gordon (Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Bryn), C. Cuss (Llywodraethwr Ysgol Idris Davies 3 - 18), Mrs B.A. Jones (Llywodraethwr Ysgolion Cynradd Sant Iago a Chenydd Sant), Mrs E. Stenner (Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Treffilip ac Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn), a L. Phipps (Llywodraethwr Ysgol Gynradd Graig-y-rhaca), ddiddordebau personol ar ddechrau'r cyfarfod gan eu bod yn Llywodraethwyr Ysgol yn eu wardiau priodol. Gan fod y datganiadau'n bersonol, nid oedd yn ofynnol i'r Aelodau adael y cyfarfod.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynigion ar gyfer dyrannu Cyllidau Cyfalaf Addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 yng nghyd-destun Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd 2018/19 - 2020/21. Mae'r rhaglen 3 blynedd yn cynnwys gwaith sy'n ymwneud â Llety Ychwanegol, Rheoli Asedau, Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Ysgolion a Newid Boeleri.

Nodwyd bod swm o £2 miliwn tuag at waith ail-weirio trydanol mewn ysgolion wedi'i ddyrannu o swm y rhaglen y cytunwyd arno dros y cyfnod o 3 blynedd 2014/15 - 2016/17. Mae'r gwaith hwn bron wedi gorffen bellach a rhagwelir tanwariant o tua £500 mil ar hyn o bryd ar y prosiect hwn.

Cynghorwyd y Cabinet bod Tîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn y broses o ddiweddaru Asesiadau Risg Tân mewn Ysgolion. O ganlyniad i Grenfell bu mwy o ffocws ar y math o adeiladu a'r gofyniad i sicrhau bod digonedd o adrannu mewn adeiladau. Mae Tîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn gweithio gyda'r gwasanaeth tân yn hyn o beth. Eglurwyd nad yw'r goblygiadau cost llawn na'r ysgolion a effeithir yn hysbys ar hyn o bryd a chynigiwyd bod y tanwariant o £500 mil a gyfeiriwyd ato ym mharagraff 4.4 yr adroddiad yn cael ei gadw ar gyfer y defnydd hwn.

Cefnogodd yr Aelodau y cynnig i gadw'r tanwariant hwn ar gyfer gwaith diogelwch tân strwythurol posibl a chroesawant flaenoriaethu prosiectau Iechyd a Diogelwch a'r ail-ffocysu a diweddaru asesiadau risg tân mewn ysgolion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) cymeradwyo'r cynigion i ddefnyddio'r Gyllideb Gyfalaf Addysg ar gyfer 2018/19;

(ii) cymeradwyo cadw'r tanwariant ar Brosiect Cynllun Trydanol yr Ysgol (Tua £500 mil) ar gyfer costau rhagamcanol y gwaith diogelwch tân strwythurol y gallai fod ei hangen o ganlyniad i'r Asesiadau Risg Tân a gynhelir ar hyn o bryd mewn ysgolion, fel yr amlinellwyd yn adran 4.5 yr adroddiad.

## 10. EITEM EITHRIO

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad bod ar gyfartaledd y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 11. GWAREDU TIR YN LÔN Y PARC, CAERFFILI

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet o dan Protocol ar gyfer Gwaredu Eiddo o dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn Lôn y Parc, Caerffili.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol y dylai Swyddogion ystyried llif traffig, cymeradwyo yr argymhellion ym mharagraff 10.1.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.02 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 28ain Mawrth, 2018.

CADEIRYDD